# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 18 Ionawr 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(39)v2

**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty (45 munud)**
Gweld y cwestiynau

**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (45 munud)**
Gweld y cwestiynau

**3. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM4892 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd darparu cyfres ragorol o raglenni wedi'u hanelu'n benodol at y blynyddoedd cynnar er mwyn galluogi plant i ffynnu'n addysgol ac yn gymdeithasol;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) rhoi sylw i ganfyddiadau Gwerthusiad o Dechrau'n Deg 2011 sy'n dweud mai cyrraedd teuluoedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol sydd leiaf llwyddiannus; ac

b) adolygu'r amrywiadau presennol ar draws y Cyfnod Sylfaen, yn benodol o ran cysondeb ac ansawdd yr hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr.

Gellir gweld Gwerthusiad o Dechrau'n Deg 2011 drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/EvalFlyStart7-20/?lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Mewnosod fel pwynt newydd ar ôl pwynt 1:

Yn croesawu'r £20 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Derfynol ym mis Rhagfyr, a fydd yn helpu plant i ffynnu'n addysgol.

**Gwelliant 2 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Mewnosod fel pwynt newydd ar ôl pwynt 1:

Yn nodi mai dim ond 21 y cant o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim sy'n cael pump TGAU da gradd A* i C.

**Gwelliant 3 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Mewnosod fel is-bwynt newydd ar ôl pwynt 2a:

sefydlu'r arfer gorau yn y rhaglen Dechrau'n Deg bresennol er mwyn llywio'r gwaith o ymestyn y rhaglen.

**Gwelliant 4 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mewnosod fel pwynt 2b newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

sicrhau, wrth gyflwyno Dechrau'n Deg, fod yr arfer gorau a ganfuwyd yn ystod y cynllun peilot yn cael ei ledaenu'n effeithiol.

**4. Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM4893 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru dros GIG Cymru a'r ddarpariaeth o dros £5 biliwn i Fyrddau Iechyd Lleol i gyflenwi gwasanaethau iechyd;

2. Yn gresynu wrth ddiffyg tryloywder ac atebolrwydd y Byrddau Iechyd Lleol wrth wneud penderfyniadau ac ym maes rheoli ariannol hyd yma.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Mewnosod ar ddiwedd pwynt 1 'ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddangos mwy o gyfrifoldeb dros berfformiad Byrddau Iechyd Lleol'.

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 2.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu a diweddaru ei harweiniad i Fyrddau Iechyd Lleol ar gynnwys y cyhoedd yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau'r GIG.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu y bydd cyllideb ddiweddar Llywodraeth Cymru yn arwain at dorri 6.6% ar gyllideb y GIG mewn termau real.

**5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**
**NDM4894 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r £56.9 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf a fydd o fudd i holl ardaloedd Cymru;

2. Yn croesawu'r cyllid pellach ar gyfer band eang yng Nghaerdydd a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref y Canghellor; ac

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r arian hwn i roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r mannau gwan ar gyfer derbyn band eang.

Gellir gweld Datganiad yr Hydref drwy ddilyn y linc a ganlyn:

[http://www.hm-treasury.gov.uk/as2011_index.htm](http://www.hm-treasury.gov.uk/as2011_index.htm)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

*[os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwyntiau 1 a 2 a rhoi pwynt 1 newydd yn eu lle:

Yn nodi'r dyraniadau diweddar o gyllid cyhoeddus ar gyfer darparu band eang.

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt 1, dileu "band eang y genhedlaeth nesaf" a rhoi yn ei le "prosiect band

eang y genhedlaeth nesaf Llywodraeth Cymru"

**Gwelliant 3 – Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt 2, ar ôl "Canghellor" mewnosod "er mwyn creu hyd at ddeg o ‘ddinasoedd uwch–gysylltiedig’ ar draws y DU"

*[os derbynnir gwelliant 4, bydd gwelliant 5 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 4 – Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 3.

**Gwelliant 5 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 3, dileu ‘i ddefnyddio’r arian hwn’.

**Gwelliant 6 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud datganiad am ei thrafodaethau gyda BT Openworld ar gyfer cyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf ledled Cymru.

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am

**6. Dadl Fer (30 munud)**
**NDM4891 Darren Millar (Gorllewin Clwyd):**

Mae gan bobl hŷn hawliau hefyd

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mawrth, 24 Ionawr 2012